Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# SWYDD WAG

# Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

**Rhan amser (22 awr yr wythnos), cytundeb cyfnod penodol o 8 mis (cyfnod mamolaeth)**

I ddechrau ar 10 Awst 2026, yn ddelfrydol

**Cyflog:** £26,000 pro rata

**Lleoliad**: Rydym yn dîm cydweithredol sy'n gweithio ledled Cymru, gyda swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Rydym yn gweithio mewn modd hybrid ac mae angen presenoldeb yn un o'r swyddfeydd yn rheolaidd ond gellir cyflawni cyfran fawr o'r rôl hon wrth weithio gartref. Os gallai mynychu'r swyddfa eich atal rhag gwneud cais am unrhyw reswm, anfonwch e-bost atom i drafod eich sefyllfa ymhellach.

**Dyddiad Cau:** Dydd Gwener 22 Mai 2026, 5.00 pm

**Cyfweliadau**: yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Mehefin 2026

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# Cliciwch i ddarganfod mwy am:

- Llenyddiaeth Cymru
- Gyrfaoedd a buddion staff
- Ein Polisi Recriwtio
- Ein Haddewid
- Rôl y Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau
- Sut i ymgeisio

# Rôl y Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

Am y Rôl

Mae hon yn rôl gyffrous a chreadigol lle byddwch yn cyfrannu at ddatblygu proffil ac enw da Llenyddiaeth Cymru, a chynyddu ein cynulleidfaoedd a'n cleientiaid. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â thîm cyfathrebu Llenyddiaeth Cymru, pob un â chyfrifoldebau penodol i helpu i adrodd stori ein sefydliad.

Mewn rôl sy'n cyfuno elfennau o farchnata, hyrwyddo, a chysylltiadau cyhoeddus, bydd un o'ch prif gyfrifoldebau'n cynnwys hyrwyddo ein cyfleoedd a'n gwasanaethau, rhannu ein negeseuon cyfathrebu allweddol, a rhannu effaith ein gwaith. Bydd hyn yn golygu creu a lledaenu cynnwys cyffrous ar gyfer ein sianelau amrywiol, cynllunio strategol, datblygu cynulleidfaoedd, ysgrifennu copi a golygu, a dadansoddi llwyddiannau ein gweithgareddau cyfathrebu.

Bydd hyn yn mynd law yn llaw â chefnogi datblygu a threfnu  digwyddiadau cyhoeddus a chaeedig wedi eu targedu at nifer o randdeiliaid gwahanol, yn cynnwys Gwobrau Llyfr y Flwyddyn, diwrnod agored yn Nhŷ Newydd, dathliadau ar gyfer ein beirdd cenedlaethol a mwy.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Rôl y Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

Meysydd darparu allweddol:

- Cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni prosiect Llyfr y Flwyddyn, gan gynnwys:
    - Trefniadau gwobr a seremoni 2027, gan gynnwys trefnu lleoliad, cyflwynydd, cyfieithu, BSL, ffotograffiaeth, siop lyfrau ayyb.
    - Dechrau ar y gwaith o drefnu rhestr wahoddedigion a trefniadau gwerthu tocynnau.
    - Bwydo i mewn i dasgau gweinyddol, gan gynnwys gwaith ariannol, rhestrau tasgau, cyfrannu at gyfarfodydd.
    - Arwain ar gyfrif Instagram Llyfr y Flwyddyn ac ar y gwaith o gyfathrebu'r uchafbwyntiau ar ein sianeli. Bydd hyn yn cynnwys creu amserlen gynnwys, dylunio cynnwys/asedau, postio a dadansoddi llwyddiant.
    - Bod yng ngofal tudalennau Llyfr y Flwyddyn ar wefan Llenyddiaeth Cymru gan eu diweddaru yn ôl yr angen.
    - Arwain ar drefniadau dathlu awduron y rhestr fer a'r enillwyr drwy gydol y flwyddyn, ac unrhyw weithgareddau a digwyddiadau i dathlu'r wobr.
- Arwain neu gefnogi ar gyflawni trefniadau digwyddiadau amrywiol yn ôl y galw. Gall hyn gynnwys:
    - Trefnu lleoliad, cyfranwyr, cyfieithu/BSL, system docynnau/cofrestru/RSVP, ffotograffydd, ayyb.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# Rôl y Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

- Cwblhau gweithgareddau marchnata/hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau a phrosiectau lle mae angen denu cynulleidfa neu werthu tocynnau. Mae hyn yn cynnwys:
  - Cyd-greu cynlluniau cyfathrebu gyda chydweithwyr;
  - Creu rhestrau cysylltiadau;
  - Anfon e-byst uniongyrchol/e-daflenni;
  - Creu a dosbarthu posteri;
  - Marchnata trwy bartneriaid.
- Bod yng ngofal adran ddigwyddiadau gwefan Llenyddiaeth Cymru, sy’n cynnwys ychwanegu digwyddiadau i’r wefan ac ymchwilio am ragor.
- Ysgrifennu, golygu a prawf-ddarllen copi, gan gynnwys ysgrifennu straeon newyddion, datganiadau i'r wasg, astudiaethau achos, gwybodaeth gyffredinol prosiectau a mwy.
- Diweddaru gwybodaeth Grwpiau Awduron ar wefan Llenyddiaeth Cymru.
- Creu a dylunio gwahoddiadau addas, eu hanfon at restrau o wahoddedigion, bod yng ngofal nodynnau atgoffa, a chreu ‘rhestr ddrws’ yn barod at ddiwrnod y digwyddiad.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Rôl y Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

- Helpu gyda'r gwaith o gynnal a chadw rhestrau o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau a chymunedau, unigolion sydd wedi archebu / dangos diddordeb yn Nhŷ Newydd, sefydliadau o ddiddordeb a mwy.
- Cynnal a chadw calendr o ddiwrnodau ac ymgyrchoedd cenedlaethol, eu rhannu gyda'r holl dîm yn rheolaidd, a chynllunio gweithgareddau marchnata/cyfathrebu o'u cwmpas.
- Bwydo i mewn i gyfarfodydd cyfathrebu a marchnata wythnosol, a chyfarfodydd achlysurol mwy dwys.
- Unrhyw dasgau eraill, yn ôl yr angen.

**Yn adrodd i:** Arweinydd Cyfathrebu

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# Rôl y Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

Rydym yn chwilio am rywun sy'n meddu'r canlynol:

- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cryf, sensitif a chadarnhaol yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Angerdd am lenyddiaeth a'i photensial i ysbrydoli, gwella a chyfoethogi bywydau.
- Profiad a dealltwriaeth o ddisgyblaethau cyfathrebu a marchnata.
- Profiad o ysgrifennu copi, cyfieithu a phrawf ddarllen.
- Y gallu i aml-dasgio, i weithio yn dda dan bwysau, ac i flaenoriaethu dyletswyddau a chyfrifoldebau.
- Profiad o drefnu a chydlynu digwyddiadau a chyllidebau.
- Profiad o gydweithio gyda phartneriaid allanol, meithrin a datblygu perthnasau.
- Y gallu i feddwl yn greadigol, datrys problemau, bod yn drefnus a blaengynllunio.

Bydd unrhyw gynigion swydd yn cael eu gwneud yn amodol ar wiriad DBS priodol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl hon ond yn ansicr a oes gennych brofiad ddigonol, cysylltwch ag Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau (alys@llenyddiaethcymru.org / 02920 472266) am sgwrs anffurfiol.

# Sut i ymgeisio

1. **Darllenwch y swydd ddisgrifiad uchod a'r rhestr o rinweddau** yn ofalus. Yn ogystal, darllenwch **Gynllun Strategol 2022-27 Llenyddiaeth Cymru** yma ac edrychwch ar ein gwefan.
2. **Ysgrifennwch lythyr cais* neu greu cais fideo*** yn esbonio **pam** eich bod â diddordeb yn y rôl, a sut yr ydych yn addas ar ei chyfer (e.e., soniwch am eich profiadau, a pha elfennau penodol sy'n eich diddori am y swydd). Bydd ceisiadau ysgrifenedig a cheisiadau fideo yn cael eu hasesu yn gyfartal.

   *Uchafswm o 2 dudalen A4, neu fideo 5-munud.
3. Gyrrwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **5.00 pm ar ddydd Gwener 22 Mai 2026.**

- Eich llythyr neu gais fideo;
- Eich **CV** a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi ei chwblhau (ar gael yma ).

**Uchafswm o 2 dudalen A4

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweld **yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Mehefin 2026**. Bydd tri aelod o staff Llenyddiaeth Cymru ar y panel cyfweld. Er mai cyfweliad ffurfiol fydd hwn, byddwn yn sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses ymgeisio.

Os yw'r broses gyfweld yn peri gofid neu bryder i chi, rhowch wybod i Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau o flaen llaw fel y gallwn drefnu sgwrs anffurfiol neu sgwrs dros y ffôn/fideo cyn y cyfweliad. Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y rôl ymlaen llaw, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. I siarad â Alys yn uniongyrchol neu i drefnu galwad yn ôl, anfonwch e-bost ati i Alys@llenyddiaethcymru.org. Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr gyda chanlyniad y cyfweliadau erbyn 15 Mehefin 2026.

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales